

# Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2023 - 2027



# Cyd-destun cyfreithiol

Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 i rym ar 1 Hydref 2010 gan ddarparu fframwaith cyfreithiol a fydd yn diogelu hawliau unigolion ac yn hybu cyfle cyfartal i bawb.

Un o brif nodweddion y Ddeddf yw ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), a ddisodlodd ddyletswyddau ar wahân ar gyfer cydraddoldeb hil, anabledd a rhywedd, ac fe ddaeth i rym ar 5 Ebrill 2011. Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n bositif at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau yn cael eu cynnwys wrth lunio polisiau a chyflwyno gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus.

Mae gofyn i gyrrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

- Ddileu camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf;
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt;
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn cwmpasu'r nodweddion gwarchoddedig canlynol:

- Oedran;
- Ailbennu rhywedd;
- Rhyw;
- Anabledd;
- Beichiogrwydd a mamolaeth;
- Cyfeiriadedd rhywiol;
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Crefydd neu gred – yn cynnwys diffyg cred.

Mae'n berthnasol i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond yng nghyswllt y gofyniad i ddileu camwahaniaethu ym maes cyflogaeth.

Defnyddir yr ymadrodd 'grŵp gwarchoddedig' weithiau i gyfeirio at bobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig.



## Dyletswyddau penodol yng Nghymru

Diben cyffredinol y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw helpu cyrff rhestredig i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol ac i hwyluso tryloywder. Mae'r dyletswyddau penodol yn berthnasol i gyrff rhestredig yng Nghymru ond nid i awdurdodau cyhoeddus heb eu datganoli sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae'r dyletswyddau penodol yn cyflwyno'r camau y mae'n rhaid i gyrff rhestredig yng Nghymru eu cymryd er mwyn dangos eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol.

Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru wedi'u nodi yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Daeth y dyletswyddau penodol yng Nghymru i rym ar 6 Ebrill 2011. Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn cwmpasu:

- Amcanion Cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltiad a'r ddyletswydd cydraddoldeb
- Asesu effaith a'r ddyletswydd cydraddoldeb
- Gwybodaeth am gydraddoldeb a'r ddyletswydd cydraddoldeb
- Gwybodaeth am Gyflogaeth, Gwahaniaethau Tâl a Hyfforddiant Staff a'r ddyletswydd cydraddoldeb
- Caffael a'r ddyletswydd cydraddoldeb

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn ddarostyngedig i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) Cymru 2011 ac mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn amlinellu sut y bydd yn cyflawni'r dyletswyddau hynny.



# EIN RÔL A HAWLIAU DYNOL PLANT YNG NGHYMRU

Sefydliad hawliau dynol plant annibynnol yw Comisiynydd Plant Cymru. Mae gofyniad statudol ar y Comisiynydd i ddiogelu a hybu hawliau dynol a lles plant, o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Gyda'i thîm, cylch gwaith y Comisiynydd yw:

- Cefnogi plant a phobl ifanc i ddysgu am hawliau plant;
- Gwrando ar blant a phobl ifanc i gael gwybod beth sy'n bwysig iddyn nhw;
- Cyngori plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdany'n nhw os ydyn nhw'n teimlo nad oes ganddyn nhw unman arall i fynd gyda'u problemau;
- Dylanwadu ar y llywodraeth a sefydliadau eraill sy'n dweud eu bod nhw'n mynd i wneud gwahaniaeth i fywydau plant, gan sicrhau eu bod yn cadw eu haddewidion i blant a phobl ifanc; a
- Codi llais dros blant a phobl ifanc yng Nghymru ar faterion pwysig - bod yn bencampwr plant yng Nghymru.

Cytuniad hawliau dynol rhyngwladol yw'r CCUHP, sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc 18 oed a iau. Dyma'r offeryn hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i gadarnhau fwyaf ac mae'n rhoi ystod eang o hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i blant a phobl ifanc, y disgwylir i Bartïon Gwladol y Confensiwn eu gweithredu. Y confensiwn hwn yw'r sail i'n holl waith.



Pedair egwyddor gyffredinol y CCUHP yw:

- Dim camwahaniaethu;
- Lles pennaf y plentyn;
- yr hawl i fywyd, goroesi, a datblygu; a
- pharch at farn y plentyn.

## Y Ffordd Gywir

Er mwyn ein galluogi ni (a chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru) i integreiddio hawliau plant ym mhob agwedd ar lunio penderfyniadau, polisiau ac arferion, rydym wedi datblygu Dull Gweithredu sy'n Seiliedig ar Hawliau Plant gyda chynghor arbenigol gan Arsyllfa Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc Cymru. Rydym wedi nodi ein strategaeth cydraddoldeb o dan bum piler dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau dynol plant:

- gwreiddio hawliau plant
- cydraddoldeb a dim camwahaniaethu
- grymuso plant
- cyfranogiad, ac
- atebolrwydd.

Mae hawliau plant wedi'u gwreiddio ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud. Yn yr un modd â chyfranogiad. Mae'n golygu ein bod ni'n gwrando ar blant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru, gan ystyried eu barn mewn modd ystyrlon.

Mae ein strategaeth cydraddoldeb yn seiliedig yn uniongyrchol ar gyfranogiad plant a phobl ifanc yn ein hymgyngoriad mawr diweddar, Gobeithion i Gymru. Mae tystiolaeth o'n diweddariad 'Hawliau Dynol Plant yng Nghymru: Adolygiad o'r Dystiolaeth, 2015 hyd heddiw' wedi siapio ein ffordd o feddwl hefyd.

I ni, mae cydraddoldeb yn ymwneud â sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i gyflawni'r gorau o ran eu bywydau a'u doniau, ac nad oes rhaid i'r un plentyn ddioddef cyfleoedd gwael mewn bywyd oherwydd camwahaniaethu. Mae'n golygu trin pob plentyn yn deg, a rhoi cyfleoedd ac adnoddau iddyn nhw yn unol â'u hanghenion, yn gyfartal ag eraill, gan sicrhau eu bod yn gallu datblygu i'w llawn potensial.

Mae dim camwahaniaethu yn hawl o dan y CCUHP (Erthygl 2). Ni ddylai fod unrhyw gamwahaniaethu yn erbyn plant fel unigolion neu fel grŵp. Bydd Comisiynydd Plant Cymru yn sicrhau bod yr egwyddor hon yn cael ei hadlewyrchu yn ein gwasanaeth ni ein hunain.

Fel corff cyhoeddus sydd â rhwymedigaethau statudol i ddiogelu a hybu hawliau plant, mae'n golygu bod gennym ni hefyd rwymedigaethau i fod yn atebol i blant Cymru am y penderfyniadau a'r camau a gymerwn a allai effeithio ar eu bywydau.

Er budd tryloywder, byddwn yn ymrwymo i gyhoeddi'r strategaeth hon, ac yn ein hadroddiad blynyddol byddwn yn cynnwys diweddariad ar y camau gweithredu a'r cynnydd a wneir yn erbyn ein pedwar amcan cydraddoldeb strategol.



## EIN GWELEDIGAETH A'N CENHADAETH

Penodwyd Rocio Cifuentes fel Comisiynydd Plant gan y Prif Weinidog ym mis Ebrill 2022 am dymor o saith mlynedd. Dyma sut mae'r Comisiynydd wedi diffinio ei gweledigaeth:

*'Cymru, gwlad lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn deall ei hawliau, yn gwybod bod y Comisiynydd Plant yno i sefyll dros yr hawliau hynny, ac yn gallu cael gafael ar gymorth er mwyn gwredu'r hawliau hynny'*

Dyma genhadaeth ein sefydliad:

*'Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru sy'n cynrychioli ac yn adlewyrchu plant a phobl ifanc Cymru yn effeithiol, yn eu grymuso, ac yn galluogi i'w lleisiau a'u pryderon gael eu clywed a'u gweithredu, gan adlewyrchu hawliau dynol a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru.*

Cydraddoldeb sydd wrth wraidd y weledigaeth a'r genhadaeth hon.

## CYNLLUN GWAITH STRATEGOL

Dyma ragor o wybodaeth am ein [cynllun gwaith strategol](#) presennol:

Yn ystod ei chyfnod yn y swydd, bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi dau gynllun strategol, gan amlinellu beth fydd y tîm yn gweithio arno i wella cyfleoedd bywyd plant yng Nghymru. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu datblygu o'r dystiolaeth ymchwil sy'n bodoli eisoes ar hawliau plant yng Nghymru ac o'n hymgyngoriad ni gyda phlant ac oedolion sy'n byw yng Nghymru. Er mwyn helpu i lunio cynllun strategol cyntaf Rocio fel y Comisiynydd (2023-2026), buom yn ymgynghori'n helaeth drwy 'Ambitions for Wales | Gobeithion i Gymru'. Rhannwyd y gwaith ymgynghori yn ddau gam:

Cam 1 (Awst - Hydref 2022): Cynhaliodd y Comisiynydd a'r tîm gyfarfodydd a gwaith ymgynghori wyneb yn wyneb gyda nifer o sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant ar draws pob maes o'u bywydau fel addysg, iechyd, gofal cymdeithasol a llawer eraill. Roedden nhw'n cynnwys byrddau iechyd, grwpiau cleifion, arbenigwyr iechyd plant, sefydliadau academiaidd, grwpiau cymunedol, yn ogystal â grwpiau Llysgenhadon y Comisiynydd, sefydliadau anllywodraethol a phlant a phobl ifanc 3+ oed oedd yn mynychu Eisteddfod yr Urdd. Yn ystod y cyfnod hwn, buom yn ymgysylltu â 644 o blant a phobl ifanc a 127 o weithwyr proffesiynol a defnyddiwyd y wybodaeth a gasglwyd i ddylunio cwestiynau ein harolwg, ar gyfer cam 2.

Cam 2 (Hydref - Tachwedd 2022): - Arolygon ar gyfer plant, pobl ifanc, rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, gan geisio barn am faterion sy'n bwysig iddyn nhw, sut maen nhw'n credu y dylid mynd i'r afael â rhai ohonynt a'r hyn maen nhw'n credu ddylai fod yn ganolbwynt i waith y Comisiynydd dros y tair blynedd nesaf. Cawsom ymatebion gan 8,807 o blant a phobl ifanc (cwblhaodd 8,375 holiaduron 7-11 oed, 12-18 oed, holiaduron hawdd eu deall a holiaduron ar-lein BSL; cwblhaodd 416 o blant y gweithgaredd dan 7 oed a chwblhaodd 16 o blant y gweithgaredd ar gyfer plant gydag anawsterau dysgu dwys a lluosog). Yn ogystal, cafwyd ymatebion gan 1,383 o rieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant.



Y tu allan i'r ymgynghoriadau mawr hyn i lunio cynllun strategol y Comisiynydd, rydyn ni hefyd yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i lywio blaenoriaethau gwaith cyfredol, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cynrychioli'r ystod ehangaf posibl o safbwyntiau pobl ifanc yn ein holl waith. Rydyn ni'n gwneud hynny drwy nifer o ddulliau, gan gynnwys digwyddiadau ac ymweliadau wyneb yn wyneb, ymweliadau rhithwir, ein cynllun Llysgenhadon sy'n cysylltu ag ysgolion a grwpiau cymunedol a thrwy ein hymchwiliadau a'n tîm cyngor annibynnol.



# Ein hamcanion cydraddoldeb strategol

Yn ogystal â nodi camau penodol i'n helpu i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb strategol, rydyn ni hefyd wedi amlygu'r cyswllt â'r meysydd blaenoriaeth yn ein cynllun strategol a fydd yn helpu i gyflawni'r gobeithion hyn. Gallwch ddarllen copi o'n cynllun strategol [yma](#).

## **AMCAN CYDRADDOLDEB STRATEGOL (1) – Sefydlu diwylliant Arweinyddiaeth a strwythur Llywodraethu sy'n gwerthfawrogi ac yn deall cydraddoldeb, gan sicrhau bod amcanion cydraddoldeb wedi'u gwreiddio yn ein holl brosesau cynllunio, craffu ac atebolrwydd**

Fel sefydliad hawliau dynol cenedlaethol sefydledig, byddaf yn sicrhau bod amcanion cydraddoldeb yn cael eu gwerthfawrogi, eu deall a'u gwreiddio yn ein holl brosesau cynllunio, craffu ac atebolrwydd sefydliadol:

- Hunan-atebolrwydd - Cynnig cyfleoedd dysgu a myfyrio addas ar gyfer uwch arweinwyr gan gynnwys ein tîm staff a grwpiau cynghori allanol i ddyfnhau a diweddarau eu dealltwriaeth o gydraddoldeb ac anghydraddoldeb yn barhaus.
- Atebolrwydd mewnol i blant a phobl ifanc - Panel Cynghori plant a phobl ifanc a Phanel Cynghori oedolion sy'n amrywiol ac effeithiol i graffu ar waith y Comisiynydd ac i ddylanwadu arno. Bydd aelodau'r panel yn cael eu dewis i sicrhau eu bod yn adlewyrchu ystod mor eang â phosibl o boblogaeth amrywiol Cymru.
- Atebolrwydd allanol i blant a phobl ifanc – Chwilio am gyfleoedd i'r Comisiynydd ddod yn fwy atebol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys atebolrwydd i'r Senedd Ieuenctid a etholwyd yn ddemocrataidd dros Gymru.
- Asesu cydraddoldeb - Parhau i ddatblygu a mireinio sut mae Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn llywio pob agwedd ar ein gwaith gan gynnwys ein gwaith Ymchwiliadau a Chynghori, ein gwaith Cyfranogi a'n gwaith Polisi, yn ogystal â'n gwaith mewnol ein hunain fel sefydliad.





- Gwreiddio cydraddoldeb - Gwreiddio ystyriaethau cydraddoldeb a monitro amcanion cydraddoldeb yn ein prosesau cynllunio a rheoli
- Rheoli cydraddoldeb - Sicrhau bod gwybodaeth rydyn ni'n ei phrosesu yn cael ei rheoli mewn modd cyfrifol.

## **AMCAN CYDRADDOLDEB STRATEGOL (2) – Cyflwyno gwasanaeth effeithiol sydd â ffocws cyhoeddus sy'n hygyrch, yn gynhwysol ac yn ymatebol i anghenion pob plentyn a pherson ifanc sy'n byw yng Nghymru**

Byddwn ni'n parhau i wella'r ffordd rydyn ni'n cynllunio, trefnu a chyflawni ein gwaith er mwyn sicrhau bod ein holl waith gyda phlant a phobl ifanc yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn ymatebol i anghenion yr amrywiaeth o blant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru:

- Ymwybyddiaeth o Gomisiynydd Plant Cymru - Canolbwyntio ein gwaith ar gynyddu ymwybyddiaeth o rôl y Comisiynydd a'i swyddfa, fel bod plant yn gwybod beth mae'r Comisiynydd yn ei wneud, sut i gael gafael ar gymorth gan y swyddfa a sicrhau eu bod yn gallu arfer eu hawliau yn well gan gynnwys herio camwahaniaethu.
- Hybu hawliau plant - Gweithio gydag eraill i gynllunio a chyflwyno rhaglen i hybu ymwybyddiaeth o hawliau plant drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys gwaith wedi'i dargedu i'r rhai hynny sydd â nodweddion gwarchoddedig.
- Cyfathrebu - Adolygu ein strategaeth gyfathrebu a sicrhau bod y ffordd rydyn ni'n cyfathrebu gyda phlant a phobl ifanc yn hygyrch i ystod mor eang â phosibl o blant a phobl ifanc, gan ddefnyddio Saesneg Plaen, Cymraeg Clir, Widgit, BSL a'r defnydd o ddelweddau sy'n adlewyrchu natur amrywiol Cymru, yn ogystal â defnyddio'r llwyfannau cyfathrebu mwyaf priodol.
- Ymgysylltu – Creu a chynnal strategaeth ymgysylltu wedi'i diweddarau, sy'n sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu clywed ac yn llywio ein gwaith ehangach.
- Yn seiliedig ar dystiolaeth – sicrhau bod ein gwaith yn seiliedig ar dystiolaeth addas gan gynnwys ein harolwg cenedlaethol 3 blynedd i lywio pob cynllun gwaith 3 blynedd (gan gynnwys mesurau wedi'u targedu i gyrraedd grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli).
- Llais plant - Sicrhau bod ein holl waith gan gynnwys ein cynllun gwaith blynyddol yn adlewyrchu barn plant a phobl ifanc a rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar hyn.
- Monitro Cydraddoldeb - Cyflwyno proses monitro cydraddoldeb i bob agwedd ar ein gwaith er mwyn monitro pa mor effeithiol rydyn ni'n cefnogi plant sydd â nodweddion gwarchoddedig gwahanol ac i'n galluogi i adnabod ac amlygu patrymau anghydraddoldeb a chamwahaniaethu.
- Cydraddoldeb mewn gwaith sy'n dylanwadu ar bolisi - Sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â chydraddoldeb a chamwahaniaethu drwy ein gwaith dylanwadu strategol fel bod pob plentyn yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau y gall fod.



## Sut byddwn ni'n gwneud hyn?



### EIN MEYSYDD BLAENORIAETH STRATEGOL CYSYLLTIEDIG YN EIN

**STRATEGAETH TAIR BLYNEDD:** Bydd ein gwaith yng nghyswllt ein meysydd blaenoriaeth 'Yma i bob plentyn' a 'Herio' hefyd yn ein helpu i wireddu'r uchelgais a nodir uchod.


## AMCAN CYDRADDOLDEB STRATEGOL (3) – Datblygu a hyrwyddo adnoddau a gwybodaeth am hawliau plant a dylanwadu dros ddull gweithredu a deddfwriaeth sy'n seiliedig ar hawliau er mwyn gallu gwireddu eu hawliau

Byddwn ni'n ceisio hybu cyfle cyfartal a herio camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc gan gynnwys y rhai sydd â nodwedd warchoddedig. Byddwn ni hefyd yn datblygu ac yn hyrwyddo adnoddau, dealltwriaeth a gwybodaeth am hawliau plant i gefnogi hyn. Byddwn ni'n canolbwyntio'n benodol ar geisio deall ac amlygu profiadau a safbwyntiau plant a phobl ifanc sydd â nodweddion gwarchoddedig. Byddwn ni'n ceisio meithrin perthynas dda rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt.

- Adnoddau - Parhau i gyhoeddi adnoddau hygyrch i blant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc.
- Dylanwad - Dylanwadu ar ddatblygiad dull gweithredu yn seiliedig ar hawliau plant ar draws pob corff cyhoeddus yng Nghymru gan ddefnyddio ein fframwaith y "Ffordd Gywir". Mae'r dull gweithredu hwn yn rhoi cydraddoldeb a dim camwahaniaethu wrth wraidd gwaith cyrff cyhoeddus.
- Ymwybyddiaeth hawliau i blant a phobl ifanc - Gwella gallu plant a phobl ifanc i arddel eu hawliau ac i gydnabod pryd mae eu hawliau'n cael eu gwadu, trwy ein rhaglenni llysgenhadon.
- Prosiectau - Gwneud gwaith prosiect â ffocws, yn seiliedig ar farn plant a phobl ifanc, a fydd yn ceisio dylanwadu ar ddull sy'n seiliedig ar hawliau o weithio gyda phlant a phobl ifanc, ac a fydd yn herio camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth. Bydd ffocws penodol ar dlodi, iechyd meddwl a chdraddoldeb.
- Grymuso plant a phobl ifanc - Annog a galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn dinasyddiaeth a'r broses ddemocrataidd.
- Sail ddeddfwriaethol - Gweithio gyda'r llywodraeth ar gyfleoedd i ymestyn hawliau plant yn y gyfraith, gan gynnwys ymgorffori CCUHP ymhellach i gyfraith Cymru.



Sut byddwn ni'n gwneud hyn?



**EIN MEYSYDD BLAENORIAETH STRATEGOL CYSYLLTIEDIG YN EIN**

**STRATEGAETH TAIR BLYNEDD:** Bydd ein gwaith mewn perthynas â'n meysydd blaenoriaeth 'Arwr hawliau' a 'Goleuo'r Gwir' hefyd yn ein helpu i wireddu'r uchelgais a nodir uchod.

**EIN HAMCAN CYDRADDOLDEB CYSYLLTIEDIG (4) – Cyflogaeth, Tâl a Hyfforddiant – Byddwch yn gyflogwr rhagorol drwy greu diwylliant yn y gweithle sy'n gefnogol, yn gynhwysol ac yn grymuso drwy hybu arferion rheoli pobl a pherfformiad sy'n ymateb i dystiolaeth sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb.**

Fel cyflogwr, byddaf yn sicrhau fy mod i'n creu gweithle cefnogol, cynhwysol a grymusol drwy hybu arferion rheoli pobl a pherfformiad sy'n esiampl i eraill gan ddefnyddio tystiolaeth sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb:

- Hybu - Mynd ati i hybu cyfleoedd i weithio yn swyddfa'r Comisiynydd Plant i'r rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig, gan dargedu grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd.
- Gwerth – Gwerthfawrogi amrywiaeth profiad byw ac ymgorffori hyn mewn disgrifiadau swyddi lle bo hynny'n berthnasol.
- Cyflog teg - Adnabod, dadansoddi ac os oes angen, rhoi camau gweithredu ar waith i oresgyn unrhyw wahaniaeth / bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ac i gyhoeddi'r wybodaeth honno. Archwilio a mynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog eraill sy'n dod i'r amlwg.
- Hygyrch - Sicrhau bod adeilad swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn hygyrch i bawb yn ffisegol ac yn ddiwylliannol, gan ddatblygu dangosyddion i ddangos hyn a sicrhau bod hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd.
- Model gweithio hyblyg - Parhau i fireinio ein dull gweithio hyblyg i sicrhau bod trefniadau gwaith yn deg ac yn hygyrch i bawb tra'n diwallu anghenion busnes.
- Dysgu - Darparu ystod o gyfleoedd dysgu a datblygu yn flynyddol i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth staff am weithio mewn ffordd sy'n sensitif yn ddiwylliannol gyda grwpiau amrywiol.
- Lleoliadau gwaith - Cynnig ystod o leoliadau gwaith, interniaethau a chyfleoedd hyfforddiant i blant a phobl ifanc a phobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a fydd yn cynnig profiad a chipolwg ar waith y Comisiynydd, gan greu ffynhonnell o weithwyr amrywiol yn y dyfodol.
- Polisiâu - Diweddarau ein polisiâu a'n harferion cyflogaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn darparu amgylchedd gwaith sy'n parchu ac sy'n hybu ac yn ymateb i anghenion y rhai sydd â nodwedd warchoddedig



- Data - Casglu a chyhoeddi gwybodaeth gynhwysfawr am y gweithlu yn unol â disgwyliadau'r Ddeddf Cydraddoldeb a'r Comisiwn Ewropeaidd neu roi esboniad pam nad yw hyn yn briodol.
- Moesegol - Gweithredu i gydymffurfio â pholisi cyflogaeth foesegol yn y gadwyn gyflenwi a pholisi Caethwasiaeth Fodern Llywodraeth Cymru.
- Mae Comisiynydd Plant Cymru yn gwerthfawrogi llesiant y gweithlu, gan weithio gydag aelodau'r Tîm i flaenoriaethu diogelwch corfforol ac emosiynol, darparu amgylchedd gwaith sy'n arddel dull dim niwed – felly byddwn yn parhau i flaenoriaethu llesiant a chefnogi a datblygu ein grŵp Llesiant Staff;
- Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'n hundeb llafur cysylltiedig PCS a manteision aelodaeth Undebau Llafur.
- Sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan o waith monitro contractau ar gyfer pob contract.

### Sut byddwn ni'n gwneud hyn?



#### **EIN MEYSYDD BLAENORIAETH STRATEGOL CYSYLLTIEDIG YN EIN STRATEGAETH TAIR**

**BLYNEDD:** Bydd ein gwaith yng nghyswllt ein meysydd blaenoriaeth 'Herio' a 'Goleuo'r Gwir' hefyd yn ein helpu i wireddu'r uchelgais a nodir uchod.

DIWEDD

